

Cynorthwyo gyda cholur dydd

Trosolwg

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynorthwyo uwch aelod o staff a chynnal colur dydd naturiol dan oruchwyliaeth. Bydd angen i chi allu paratoi ar gyfer y colur, cynnal dadansoddiad croen a defnyddio technegau ymgynghori. Bydd angen i chi hefyd allu taenu colur sylfaenol. Bydd y gwasanaeth hefyd yn cynnwys gwirio a yw uwch aelod o staff a'r cleient yn fodlon â'r effaith orffenedig.

Er mwyn cynnal y safon hon bydd angen i chi gynnal iechyd, diogelwch a hylendid effeithiol trwy gydol eich gwaith. Bydd angen i chi hefyd gynnal eich ymddangosiad personol a dangos sgiliau cyfathrebu ac ymgynghori da.

Prif ganlyniadau'r safon hon yw:

1. cynnal dulliau gwaith diogel ac effeithiol wrth gynorthwyo gyda cholur dydd
2. ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer gwasanaethau colur
3. taenu colur dydd

Cynorthwyo gyda cholur dydd

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Cynnal dulliau gwaith diogel ac effeithiol wrth gynorthwyo gyda cholur dydd**

1. cynnal eich cyfrifoldebau dros iechyd a diogelwch trwy gydol y gwasanaeth colur
2. dilyn cyfarwyddiadau uwch aelod o staff trwy gydol y gwasanaeth a cheisio cymorth yn ôl yr angen
3. gosod yr ardal waith i fodloni gweithdrefnau sefydliadol
4. gwirio bod yr amodau amgylcheddol yn addas ar gyfer y cleient a'r gwasanaeth
5. sicrhau bod eich hylendid, amddiffyniad ac ymddangosiad personol yn bodloni gofynion derbyniol y diwydiant a'r sefydliad
6. glanhau'r holl offer a'r cyfarpar yn dilyn gofynion sefydliadol
7. diheintio'ch dwylo cyn taenu colur
8. gosod cyfarpar a deunydd er hwylustod a defnydd diogel
9. sicrhau bod eich ystum a'ch safle yn isafu ar flinder a risg o anaf wrth weithio
10. cael gwared ar ddeunyddiau gwastraff yn ôl gofynion y salon
11. cynnal y gwasanaeth o fewn amser sy'n ymarferol yn fasnachol
12. gadael yr ardal waith mewn cyflwr sy'n addas ar gyfer gwasanaethau pellach

Ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer gwasanaethau colur**

13. defnyddio **technegau ymgynghori** i bennu gofynion y cleient o fewn cyfyngiadau eich cyfrifoldeb
14. sicrhau caniatâd wedi'i lofnodi gan riant neu warcheidwad cyn trin plentyn cyn unrhyw wasanaeth
15. sicrhau bod rhiant neu warcheidwad yn bresennol trwy gydol y gwasanaeth ar gyfer plant

Cynorthwyo gyda cholur dydd

sy'n iau na 16 oed

16. gofyn cwestiynau i'ch cleient i ganfod a oes ganddynt unrhyw wrtharwyddion i golur dydd a chofnodi ymatebion eich cleient

17. **paratoi a gosod y cleient** mewn safle i fodloni anghenion cynllun colur y cytunwyd arno

18. glanhau, tynhau a lleithio croen y cleient cyn taenu'r colur

19. adnabod a chofnodi **math o groen** y cleient

20. dewis a pharatoi cynnyrch colur sy'n addas i **fath o groen** y cleient a'u hoffterau

Taenu colur dydd**

21. defnyddio **cynnyrch colur** yn dilyn cyfarwyddiadau cynhyrchwyr ac uwch aelod o staff

22. taenu colur sylfaen a chuddiwr i greu arlliw croen sydd yr un peth ar draws yr wyneb

23. taenu powdr i gyflawni'r gorffeniad dymunol

24. taenu cynnyrch llygaid i gyfoethogi ardal y llygaid, aeliau a blew amrannau

25. taenu cynnyrch bochau i gyfoethogi lliw naturiol y cleient

26. taenu cynnyrch gwefusau i gyfoethogi gwefusau'r cleient

27. sicrhau bod y cleient ac uwch aelod o staff yn fodlon â'r canlyniad gorffenedig

28. rhoi **cyngor ac argymhellion** i'ch cleient ar y gwasanaeth a ddarparwyd

29. sicrhau bod cofnodion y cleient yn cael eu llanw a'u llofnodi gan y cleient ac uwch aelod o staff

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Cynnal dulliau gwaith diogel ac effeithiol wrth gynorthwyo gyda cholur dydd**

1. eich cyfrifoldebau dros **iechyd a diogelwch** fel y diffinnir gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n berthnasol i'ch swydd
2. pam mae hi'n bwysig dilyn cyfarwyddiadau uwch aelod o staff a chanlyniadau peidio â gwneud hynny
3. yr amodau amgylcheddol sy'n ofynnol ar gyfer gwasanaethau a pham mae'r rhain yn bwysig
4. eich cyfrifoldebau a rhesymau dros gynnal eich hylendid, amddiffyniad ac ymddangosiad personol yn unol â gofynion derbyniol y diwydiant a'r sefydliad
5. sut i ddiheintio offer a chyfarpar ar gyfer taenu colur dydd
6. dulliau glanhau, diheintio a sterileiddio
7. pwysigrwydd diheintio dwylo, a'r rhesymau dros wneud hynny
8. pam mae hi'n bwysig cynnal safonau hylendid ac egwyddorion osgoi croes-heintio
9. sut i baratoi a gosod y cleient yn ei safle ar gyfer taenu colur dydd
10. sut i osgoi anghysur ac anaf posibl i'ch hun a risgiau gosod y cleientiaid mewn safle gwael
11. sut i gael gwared ar wastraff o wasanaethau
12. y rhesymau dros gwblhau'r gwasanaeth o fewn amser sy'n ymarferol yn fasnachol
13. y cyflwr y dylid gadael yr ardal waith a pham mae hyn yn bwysig

Ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer gwasanaethau colur**

14. sut i ddefnyddio gwahanol dechnegau ymgynghori i ganfod anghenion y cleient
15. y sgiliau holi a gwrando y mae eu hangen arnoch chi er mwyn canfod y wybodaeth

Cynorthwyo gyda cholur dydd

16. y rhesymau pam mae angen rhiant neu warcheidwad yn bresennol trwy gydol y gwasanaeth a rhoi caniatâd ysgrifenedig wrth drin plant sy'n iau na 16 oed
17. pam mae hi'n bwysig holi cleientiaid i sefydlu unrhyw wrtharwyddion i golur dydd a chofnodi eu hymatebion
18. sut i baratoi'r croen a chynnal dadansoddiad croen
19. sut i adnabod **mathau o groen**
20. mathau o gyflyrau ac anhwylderau a allai **wrtharwyddo'r** gwasanaeth a sut i'w hadnabod
21. sut i ddewis cynnyrch colur sy'n addasu i fath o groen y cleient

Taenu colur dydd**

22. defnyddio deunydd ac offer sy'n ofynnol ar gyfer gwasanaethau colur
23. gwahanol fathau o **gynnyrch colur** a sut i'w taenu
24. y rhesymau pam y dylai **cynnyrch colur** gael eu taenu mewn dilyniant addas
25. canlyniadau dewis a thaenu colur yn anghywir
26. **adweithiau** posibl a allai ddigwydd a sut i ddelio â hwy
27. adeiladwaith a swyddogaethau sylfaenol y croen
28. y **cyngor a'r argymhellion** ar gynnyrch a gwasanaethau
29. sut i lanw cofnodion y cleient i fodloni gofynion cyfreithiol a sefydliadol

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

Technegau ymgynghori**

1. holi
2. gwranddo
3. edrych
4. teimlo
5. ysgrifenedig

Paratoi'r cleient**

1. amddiffyn dillad
2. tynnu ategolion
3. amddiffyn y gwallt

Math o groen**

1. olewog
2. sych
3. cyfuniad

Cynnyrch colur**

1. colur sylfaen
2. cuddwyr
3. powdr
4. cynnyrch llygaid

Cynorthwyo gyda cholur dydd

5. cynnyrch bochau

6. cynnyrch gwefusau

Cyngor ac argymhellion**

1. cynnyrch ôl-ofal addas a'u defnydd

2. osgoi gweithgareddau a allai achosi adweithiau

3. cynnyrch a thriniaethau yn awr ac yn y dyfodol

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

Iechyd a diogelwch**

1. Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
2. Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR)
3. Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf)
4. Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân)
5. Rheoliadau Gweithredoedd Codi a Chario
6. Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)
7. Rheoliadau Trydan yn y Gweithle
8. Deddf Diogelu'r Amgylchedd
9. Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
10. Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Gwybodaeth i Gyflogaion)

Mathau o groen**

1. olewog
2. sych
3. cyfuniad
4. normal

Gwrtharwyddo**

1. feirol – crachen annwyd
2. llid yr amrannau

Cynorthwyo gyda cholur dydd

3. briwiau a chrafiadau agored
4. chwydd
5. llid y croen
6. meinwe craith ddiweddar
7. ecsema
8. hyperkeratosis
9. alergeddau croen
10. cleisio
11. llygaid llawn dagrau
12. ecsema a psorïasis wedi gwella
13. cochni

Cynnyrch colur**

1. colur sylfaen
2. cuddwyr
3. powdr
4. cynnyrch llygaid
5. cynnyrch bochau
6. cynnyrch gwefusau

Adweithiau**

1. chwysu gormodol
2. adweithiau croen gwael

Cynorthwyo gyda cholur dydd

3. llygaid yn llawn dagrau

4. cochni gormodol

Cyngor ac argymhellion**

1. gwasanaethau ychwanegol

2. cynnyrch ychwanegol

3. cynnyrch i'w defnyddio yn y cartref a fydd o fudd i'r cleient a'r rheini i osgoi a pham

4. yr adweithiau a allai ddigwydd ar ôl triniaethau colur a pha gyngor i'w roi i gleientiaid

Cynorthwyo gyda cholur dydd

Gwerthoedd

Mae'r gwerthoedd allweddol a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba

1. parodrwydd i ddysgu
2. agwedd gweithio hyblyg
3. gweithiwr tîm
4. agwedd bositif
5. moeseg bersonol a phroffesiynol
- *
- *

Ymddygiadau

Mae'r gwerthoedd allweddol a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba

1. parodrwydd i ddysgu
2. agwedd gweithio hyblyg
3. gweithiwr tîm
4. agwedd bositif
5. moeseg bersonol a phroffesiynol

Sgiliau

Mae'r sgiliau allweddol a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba

1. y gallu i hunan-reoli
2. cyfathrebu llafar a dieiriau gwyb
3. defnyddio'r ffyrdd mwyaf priodol o gyfathrebu gyda chleient
4. ymateb yn brydlon i gleient sy'n gofyn am gymorth
5. canfod gwybodaeth yn gyflym a fydd o gymorth i'r cleient
6. rhoi gwybodaeth y mae ei hangen ar gleient am wasanaethau a chynnyrch a gynigir gan y sefydliad

Geirfa

Adweithiau**

Adweithiau negyddol i'r driniaeth neu gynnyrch megis cochni gormodol neu adweithiau

Cynorthwyo gyda cholur dydd

alergaidd.

Gwrtharwyddion**

Amodau neu gyfyngiadau sy'n nodi na ddylid cynnal gwasanaeth penodol.

Croes-heintio**

Trosglwyddo micro-organebau trwy arferion hylendid gwael trwy gyswllt uniongyrchol gydag unigolyn arall neu gyswllt anuniongyrchol trwy offer a chyfarpar wedi'u heintio.

Diheintio**

Atal twf micro-organebau (ac eithrio sborau) sy'n achosi salwch gan ddefnyddio cyfryngau cemegol.

Glanhau dwylo**

Glanhau neu olchi'r dwylo i lefel antiseptig er mwyn atal twf bacteria.

Amodau amgylcheddol**

Mae'r rhain yn cynnwys gwresogi, goleuadau ac awyru i sicrhau'r lleoliad a'r naws cywir ar gyfer y driniaeth.

Gofynion cyfreithiol**

Mae hyn yn cyfeirio at y cyfreithiau sy'n effeithio ar y ffordd y mae busnesau yn gweithredu, sut mae'r salon neu'r gweithle yn cael ei sefydlu a'i gynnal, pobl sy'n cael eu cyflogi a'r systemau gwaith y mae'n rhaid eu cynnal. Ymhlith yr enghreifftiau y mae rheoliadau COSHH, Rheoliadau Trydan yn y Gweithle a'r Rheoliadau Cynnyrch Cosmetig (Diogelwch).

Cyfarwyddiadau'r cynhyrchwyr**

Arweiniad a gyhoeddir gan gynhyrchwyr neu gyflenwyr cynnyrch neu gyfarpar yn ymwneud â'u defnydd diogel ac effeithiol.

Cyflwyniad personol**

Mae hyn yn cynnwys hylendid personol; defnyddio cyfarpar amddiffyn personol; dillad ac ategolion sy'n addas i'r gweithle penodol.

Gofynion y salon**

Unrhyw weithdrefnau'r salon neu reolau gwaith a gyhoeddir gan reolwyr y salon.

Sterileiddio**

Dulliau glanhau a ddefnyddir er mwyn dinistrio micro-organebau yn llwyr.

Cynorthwyo gyda cholur dydd

Datblygwyd gan	SkillsActive
Dyddiad cymeradwyo	01 Ion 2015
Dyddiad Adolygu Dangosol	29 Ebr 2020
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	SkillsActive
RCU gwreiddiol	SKAB3
Galwedigaethau perthnasol	Therapydd Cynorthwyol
Cyfres/Set	Therapi Harddwch
Geiriau Allweddol	cynorthwyo; dydd; colur